

Datganiad Preifatrwydd

Tai Ceredigion Cyf – Datganiad Preifatrwydd ar gyfer y Wefan

Cyflwyniad i'r datganiad hwn

Mae'r datganiad preifatrwydd hwn yn ymwneud â'r wefan hon ynghyd ag unrhyw ddyfeisiau neu raglenni meddalwedd sy'n gysylltiedig â hi. Dylech ddarllen y datganiad yn ofalus oherwydd mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig ynghylch sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth.

Mae'n bosibl y byddwn yn diweddarau'r datganiad o bryd i'w gilydd yn unol â deddfau diogelu data. Cafodd y polisi hwn ei ddiweddarau ddiwethaf ar 5ed o Ebrill 2018.

Ynglŷn â ni

Mae'r termau 'TC' neu 'ni' yn cyfeirio at Tai Ceredigion Cyf, sef perchennog y system a'r wefan. Rydym yn gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru dan y rhif IP030701, a chyfeiriad ein swyddfa gofrestredig yw Uned 4, Parc Busnes Pont Steffan, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion, SA48 7HH. Yn ogystal, mae unrhyw gyfeiriad atom 'ni' yn y telerau hyn yn cynnwys ein his-gwmnïau o bryd i'w gilydd. Mae'r term 'chi' yn cyfeirio at yr unigolyn sy'n cyflwyno gwybodaeth i'r system.

Cyfraith diogelu data

Byddwn yn prosesu'r holl wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu gennych yn unol â saith egwyddor y Ddeddf Diogelu Data, nid yn unig oherwydd bod dyletswydd gyfreithiol arnom i wneud hynny ond hefyd oherwydd ein bod o'r farn bod gwneud hynny'n arfer busnes da a'i fod yn ein helpu i ddod i adnabod ein cwsmeriaid yn well a diogelu eu gwybodaeth yn well.

I wneud hynny, rydym yn dilyn saith egwyddor y Ddeddf Diogelu Data sy'n datgan:

- Bod yn rhaid i ddata gael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
- Bod yn rhaid i ddata gael ei brosesu at ddibenion cyfyngedig
- Bod yn rhaid i ddata fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol
- Bod yn rhaid i ddata fod yn gywir ac yn gyfredol
- Na ddylid cadw data am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol
- Bod yn rhaid i ddata gael ei brosesu'n unol â'ch hawliau
- Ein bod yn gyfrifol am ddangos, a bod yn rhaid i ni allu dangos, ein bod yn cydymffurfio â deddfau diogelu data.

Y wybodaeth y gallem fod yn ei chasglu amdano

Pan fydd rhywun yn ymweld â <http://taiceredigion.cymru/> byddwn yn defnyddio gwasanaeth trydydd parti, sef Google Analytics, i gasglu gwybodaeth safonol am ddefnydd o'r rhyngwyd a chasglu manylion am batrymau ymddygiad ymwelwyr. Rydym yn gwneud hynny er mwyn cael gwybodaeth, er enghraifft, am nifer y bobl sy'n ymweld ag amryw rannau'r wefan. Dim ond mewn modd sy'n golygu na ellir adnabod neb y caiff y wybodaeth hon ei phrosesu. Nid ydym yn ceisio – ac nid ydym yn caniatáu i Google geisio – adnabod y sawl sy'n ymweld â'n gwefan. Os byddwn am gasglu gwybodaeth drwy ein gwefan, sy'n golygu y gellir eich adnabod, byddwn yn datgan hynny ymlaen llaw. Byddwn yn nodi'n glir pryd y byddwn yn casglu gwybodaeth bersonol a byddwn yn esbonio beth yr ydym yn bwriadu ei wneud â'r wybodaeth honno.

Defnyddio cwcis

Rydym yn defnyddio cwcis i sicrhau ein bod yn cynnig y profiad gorau posibl i chi ar ein gwefan. Mae ein system yn defnyddio cwcis i wahaniaethu rhwng ein defnyddwyr; casglu gwybodaeth safonol am ddefnydd o'r rhyngwyd; a chasglu gwybodaeth am ymddygiad ymwelwyr. Caiff y wybodaeth ei defnyddio i olrhain y modd y mae defnyddwyr yn rhyngweithio â'r wefan, ac mae'n ein galluogi i gynnig profiad da i chi pan fyddwch yn ymweld â'r wefan, mae'n ein helpu i wella ein gwefan, ac mae'n ein galluogi i lunio adroddiadau ystadegol am ymwelwyr a gweithgarwch.

Mae'n bosibl y bydd ein meddalwedd yn anfon 'cwcis' (ffeiliau testun bach) i'ch dyfais pan fyddwch yn ymweld â'r system ac yn ei defnyddio, a gofynnir i chi ganiatáu i hynny ddigwydd ar y pryd (e.e. pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan am y tro cyntaf). Nid yw cwcis yn effeithio ar eich preifatrwydd na'ch diogelwch, oherwydd ni all cwci ddarllen data yn eich system chi na darllen ffeiliau cwci a grëwyd gan wefannau eraill. Os hoffech chi, gallwch osod eich system fel na fydd yn derbyn cwcis (e.e. drwy newid gosodiadau eich porwr fel na chaiff cwcis eu derbyn). Fodd bynnag, dylech nodi ei bod yn bosibl na fydd rhai o nodweddion ein system yn gweithio os byddwch yn dileu cwcis o'ch system. I gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am gwcis, ewch i www.aboutcookies.org neu www.allaboutcookies.org.

Adnodd adrodd ar-lein

Rydym yn defnyddio adnodd adrodd ar-lein i gasglu gwybodaeth y bydd aelodau'r cyhoedd yn ei rhoi o'u gwirfodd am unrhyw waith atgyweirio, cwynion, canmoliaeth neu faterion sy'n ymwneud â rheoli tai. Caiff y wybodaeth ei hanfon i post@taiceredigion.cymru er mwyn iddi gael ei throsglwyddo i'r tîm cywir. Caiff yr holl wybodaeth ei phrosesu'n unol â'r egwyddorion diogelu data.

Pobl sy'n cysylltu â ni drwy gyfryngau cymdeithasol

Rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti, sef Hootsuite, i reoli'r modd yr ydym yn rhyngweithio â phobl ar gyfryngau cymdeithasol. Os byddwch yn anfon neges breifat neu uniongyrchol atom drwy gyfryngau cymdeithasol, bydd y neges yn cael ei storio gan Hootsuite am dri mis. Ni fydd yn cael ei rhannu ag unrhyw sefydliad arall.

Pobl sy'n anfon neges ebost atom

Bydd pob neges ebost a anfonir drwy wefan TC yn mynd i post@taiceredigion.cymru er mwyn iddi gael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol. Ni fydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn cael ei rhannu â sefydliadau allanol.

Byddwn hefyd yn monitro unrhyw negeseuon ebost a anfonir atom, gan gynnwys ffeiliau a atodir wrth negeseuon ebost, er mwyn chwilio am firysau neu faleiswedd. Cofiwch fod cyfrifoldeb arnoch chi i sicrhau bod unrhyw neges ebost a anfonir gennych yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Pobl sy'n anfon cwyn atom

Pan fyddwn yn cael cwyn gan unigolyn drwy wefan TC, byddwn yn creu ffeil sy'n cynnwys manylion y gŵyn. Bydd y wybodaeth fel rheol yn cynnwys enw'r sawl sy'n cwyno ac enwau unrhyw unigolion eraill sy'n gysylltiedig â'r gŵyn.

Bydd Tai Ceredigion bob amser yn ceisio datrys eich cwyn mor fuan ag sy'n bosibl, a bydd y gwaith o'i datrys yn cael ei gyflawni gan yr aelod o staff sydd fel rheol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth dan sylw. Byddwn yn gwrando'n ofalus ar eich cwyn ac yn cynnal ymchwiliad trylwyr.

Dim ond er mwyn prosesu'r gŵyn a gwirio lefel y gwasanaeth a ddarperir gennym y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth bersonol y byddwn yn ei chasglu. Byddwn yn llunio ac yn cyhoeddi ystadegau sy'n dangos gwybodaeth megis nifer y cwynion a gawn, ond nid ar ffurf sy'n golygu bod modd adnabod pobl.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth bersonol sydd mewn ffeiliau cwynion yn unol â'n polisi ynghylch cadw data. Mae hynny'n golygu y bydd gwybodaeth am gŵyn yn cael ei chadw am ddwy flynedd ar ôl y dyddiad y caiff yr achos ei gau. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw mewn amgylchedd diogel, a chyfyngir ar y bobl a all ei gweld.

TŷFi

Wrth gofrestru ar TŷFi, bydd angen i chi ddefnyddio eich cyfeirnod tenantiaeth, sy'n cynnwys 10 rhif, a bydd angen i chi greu cyfrinair. Chi fydd yn gyfrifol am gadw'r cyfrinair hwnnw'n ddiogel. Nid yw Tai Ceredigion yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw achos o dorri cyfrinachedd data, sy'n deillio o'r ffaith eich bod chi wedi methu â chadw'r cyfrinair yn ddiogel. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei hamgryptio a'i storio, a dim ond yn ystod y broses o gadarnhau mai chi ydych chi pan fyddwch yn

mewngofnodi i'r system y bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio. Ni fydd y wybodaeth yn cael ei throsglwyddo i unrhyw drydydd parti.

Bydd y wybodaeth yn eich cyfrif personol TŷFi yn ymwneud â'ch tenantiaeth, a bydd y cyfrif hefyd yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw waith atgyweirio ac adroddiadau ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gallwch ofyn am i wybodaeth bersonol gael ei diweddarau drwy TŷFi. Os byddwch am roi'r gorau i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, cysylltwch â ni ac fe wnawn ni ddileu'r wybodaeth o'n cronfa ddata.

Monitro

Mae'n bosibl y byddwn yn monitro ac yn cofnodi/recordio unrhyw achosion o gyfathrebu â chi (e.e. sgysiau ffôn a negeseuon ebost) er mwyn darparu gwasanaethau, sicrhau ansawdd, hyfforddi, atal twyll a chydymffurfio ag unrhyw ofynion. Bydd unrhyw wybodaeth a gawn drwy waith monitro a chyfathrebu o'r fath yn cael ei hychwanegu at y wybodaeth sydd gennym amdanoch yn barod.

Eich hawliau

Os ydych yn unigolyn, mae'r adran hon yn egluro eich hawliau cyfreithiol yng nghyswllt unrhyw elfen o'ch data personol sydd gennym a/neu'r ydym yn ei phrosesu. Os hoffech arfer unrhyw un o'ch hawliau cyfreithiol, dylech nodi eich cais i ni'n ysgrifenedig gan roi digon o wybodaeth i ni allu eich adnabod ac ymateb i'ch cais.

Mae gennych hawl (yn amodol ar dalu ffi fach) i ofyn am wybodaeth am y data personol a allai fod gennym a/neu y gallem fod yn ei brosesu amdanoch. Ymhlith cwestiynau eraill, gallech ofyn a oes gennym a/neu a ydym yn prosesu unrhyw elfen o'ch data personol; beth yw hyd a lled y data personol sydd gennym; at ba ddibenion y caiff y data personol ei brosesu; a beth yw graddau'r gwaith prosesu.

Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro a/neu ddiweddarau unrhyw wybodaeth wallus sydd gennym amdanoch. Os bydd unrhyw elfen o'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn newid, neu os byddwch yn dod yn ymwybodol o unrhyw wallau yn y wybodaeth honno, dylech roi gwybod i ni'n ysgrifenedig gan roi digon o wybodaeth i ni allu ymdrin â'r newid neu'r cywiriad.

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu'r holl ddata personol sydd gennym amdanoch. Nodwch nad yw'r hawl hon i ddileu data ar gael ym mhob amgylchiad, e.e. os oes angen i ni gadw'r data personol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Byddwn yn rhoi gwybod i chi os dyna yw'r sefyllfa.

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar y graddau y caiff eich data personol ei brosesu, e.e. os yw'r data personol yn wallus neu os ydych wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r data gael ei brosesu.

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r data personol sydd gennym amdanoch a gofyn am iddo gael ei ddarparu mewn fformat strwythuredig sy'n golygu bod modd i chi ei drosglwyddo. Nodwch mai dim ond mewn rhai amgylchiadau y mae'r hawl hon i allu

cludo data ar gael. Os byddwch yn gofyn am yr hawl i allu cludo data ac os na fydd yr hawl honno ar gael i chi, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Os ydym yn prosesu eich data personol mae gennych hawl, ar sail eich sefyllfa benodol, i wrthod rhoi caniatâd i'r prosesu hwnnw ddiwydd. Os felly, byddwn yn rhoi'r gorau i brosesu eich data personol oni bai ein bod yn gallu dangos bod rhesymau dilys digonol a gorfodol dros barhau â'r gwaith prosesu, sy'n bwysicach na'ch buddiannau chi. Mae gennych hawl i wrthod rhoi caniatâd i ddata gael ei brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Dolenni cyswllt â gwefannau eraill

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i ddolenni cyswllt yn y wefan hon, sy'n cysylltu â gwefannau eraill. Byddem yn eich annog i ddarllen datganiadau preifatrwydd y gwefannau eraill yr ydych yn ymweld â nhw.

Hygyrchedd

Nod y polisi hwn yw sicrhau eich bod yn cael yr holl fanylion perthnasol ynghylch sut yr ydym yn prosesu eich gwybodaeth, ar ffurf gryno, dryloyw, ddealladwy a hygyrch sy'n defnyddio iaith glir a syml. Os byddwch yn cael unrhyw anhawster darllen neu ddeall y polisi hwn, neu os hoffech gael y polisi hwn mewn fformat arall (e.e. mewn fformat sain, mewn print bras neu mewn Braille), mae croeso i chi gysylltu â ni.

Newidiadau i'r hysbysiad preifatrwydd hwn

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd, ac mae'n bosibl y bydd yn newid o bryd i'w gilydd. Os byddwn yn newid y polisi hwn, byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau ar y dudalen hon ac yn gosod hysbysiadau ar dudalennau eraill y wefan fel y bo'n berthnasol, fel eich bod yn ymwybodol bob amser o'r wybodaeth a gesglir gennym a'r modd y byddwn yn ei defnyddio. Chi sy'n gyfrifol am sicrhau eich bod yn ymwybodol o fersiwn ddiweddaraf y polisi hwn, oherwydd y fersiwn honno fydd yn berthnasol bob tro y byddwch yn ymweld â'r wefan.

Sut i gysylltu â ni

Os hoffech ofyn am wybodaeth am ein polisi preifatrwydd, gallwch anfon ebost neu lythyr atom gan ddefnyddio'r cyfeiriadau canlynol:

Tai Ceredigion Cyf
Parc Busnes Pont Steffan
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7HH

post@taiceredigion.cymru

0345 606 7654